Yswiriant Diogelu Taliadau - sampl o lythyr cwyn

Fe allwch chi ddefnyddio'r sampl o lythyr cwyn sydd ar yr ail dudalen i'ch helpu i gwyno ynglŷn â cham-werthu Yswiriant Diogelu Taliadau.

Er mwyn gwybod mwy am Yswiriant Diogelu Taliadau a phryd y dylech ddefnyddio'r llythyr hwn, edrychwch ar ein taflen ffeithiau, Yswiriant Diogelu Taliadau.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Yswiriant Diogelu Taliadau
- Cymorth gyda dyled
- Gwasanaethau prynu- eich hawliau
- Yswiriant
- Credyd

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 25 Ionawr 2012, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Yr Adran Gwynion
[Cyfeiriad y Benthyciwr]
[Dyddiad]

Annwyl Syr/Madam,

Cyf: [Eich rhif polisi YDT (PPI)]

Fe ges i fenthyciad/cerdyn credyd/cerdyn siop gwerth £xxx oddi wrth [*Rhowch enw'r cwmni neu'r siop*] ar [*dyddiad*]. Ar yr un pryd, gwerthwyd yswiriant diogelu taliadau i mi. [Enw'r person a werthodd y polisi hwn i mi yw *Rhowch yr enw*] Cyfanswm fy nhaliadau gyda'r llog yw £xxx.

Credaf fod y polisi yswiriant hwn wedi'i gam-werthu i mi. Y rheswm am hyn yw fy mod [*dewiswch yr un sy'n gymwys i chi* - yn hunan cyflogedig/ yn gweithio fel contractwr/ yn ddiwaith/ wedi ymddeol/yn gweithio rhan amser/ yn gweithio dros dro] Felly, o dan amodau'r polisi, ni fydd gennyf sicrwydd yswiriant os na allaf gwrdd â [*dewiswch yr un sy'n gymwys i chi*- thaliadau'r benthyciad/y cerdyn credyd/y cerdyn siop.]

Paragraffau ychwanegol posibl - gallwch gynnwys yr un sy'n gymwys i chi.

[Gwyddai eich gwerthwr hyn adeg y gwerthiant ond heb dynnu fy sylw at y ffaith na fyddwn wedi fy yswirio gan y polisi. Petaent wedi gwneud hyn, fyddwn i ddim wedi prynu'r polisi]

neu

[Wnaeth eich gwerthwr ddim gwirio fy amgylchiadau personol adeg y gwerthiant, na dweud wrthyf pa amgylchiadau oedd ddim o dan amodau'r polisi. Petaen nhw wedi gwneud hyn, fyddwn i ddim wedi prynu'r polisi]

a

[*ychwanegwch unrhyw wybodaeth ychwanegol allai helpu eich cais*]

Rhaid i gwmnïau sy'n gwerthu polisïau yswiriant wneud yn siŵr fod y polisi maen nhw'n ei werthu yn addas i anghenion y cwsmer. Mae'r polisi a werthwyd i mi yn amlwg yn anaddas i mi oherwydd fy mod i [*dewiswch yr un sy'n gymwys i chi* - yn hunan cyflogedig/yn gweithio fel contractwr/wedi ymddeol/yn gweithio rhan amser/yn weithiwr dros dro]

Oherwydd fe gam-werthwyd y polisi hwn i mi, hoffwn ei ddiddymu yn ddi-oed, a gofyn am ad-daliad llawn o'r holl daliadau a wnaed hyd yn hyn, yn ogystal â'r llog. Cyfanswm hyn yw £xxx.

A fyddech gystal ag archwilio fy nghwyn o fewn yr wyth wythnos a ganiateir cyn bod modd ei gyfeirio at yr Ombwdsmon Ariannol.

Yr eiddoch yn gywir
[Eich llofnod]

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr